



Cynllun Garddwriaeth Fasnachol 2020

CRYNODEB GWEITHREDOL



Cwmni Amcangyfrifod Ffwrdd yr
Cyffwrdd Ddiwydiol Cymru
Bwrdd ym Mudiadau Ffwrdd Amcangyfrifod Gwladol
European Agricultural Fund for
Rural Development
European Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Crynodeb gweithredol: Garddwriaeth Fasnachol yng Nghymru, Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Mae garddwriaeth yn sector twf allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae'n hanfodol ar gyfer cyflawni amcanion Cynllun Datblygu Gwledig Cymru ac mae wedi cyfrannu at gyflawni'r uchelgais i dyfu'r sector bwyd a diodydd 30% yn 2020, gan gynyddu trosiant y diwydiant i £7biliwn.

Ond nid mater o dwf beth bynnag fo'r pris yw hyn. Mae mynediad at adnoddau naturiol ac o fewn terfynau fel tir, ynni a dŵr, yn hanfodol i dyfu cynnyrch bwyd ac addurnol. Bydd rheolaeth o'r adnoddau naturiol hyn yn cael ei flaenoriaethu trwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gyda thaliadau fferm wedi'u halinio ag arferion tir cynaliadwy sy'n ymateb i'r argyfwng hinsawdd ac yn gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth.. At hynny, mae'r Cynllun Strategol newydd ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru yn cynnig bwrw ymlaen ag ymrwymiad i ddatblygu sgiliau'r gweithlu, gan ddefnyddio adnoddau'n gynaliadwy, mynd i'r afael ag iechyd y cyhoedd, yn ogystal â chwrdd â gwerthoedd brand cynaliadwy sy'n anelu at wella Brand Cymru.

Mae'r pandemig presennol hefyd wedi tynnu sylw at ddibyniaeth ar gadwyni cyflenwi byd-eang. Mae hefyd wedi rhoi mwy o bwyslais ar alw defnyddwyr am wybodaeth o darddiad y cynnyrch, sydd eisoes yn sylweddol ac yn cynyddu, a'r angen am gadwyni cyflenwi byrrach, gan gynyddu gwytnwch mewn cynhyrchu sylfaenol a chymunedau gwledig. **Mae hybu ffermio garddwriaeth yn allweddol i gynlluniau Llywodraeth Cymru i ail-godi o'r pandemig coronafeirws ac fe'i nodwyd gan eu Tasglu Adferiad Gwyrdd fel llwybr i gyflymu trosglwyddiad Cymru i economi carbon isel a hybu cenedl iachach, fwy cyfartal.**

Mae'r diwydiant garddwriaeth yng Nghymru mewn sefyllfa dda i gyflawni'r heriau polisi cyfun hyn ac mae'n agor cyfleoedd masnachol i ffermydd arallgyfeirio at arddwriaeth a darparu mynediad i fwy o dir er mwyn i'r sector ehangu.

Dan arweiniad Tyfu Cymru, prosiect a reolir gan Lantra, a chyda chyllid o gynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio Llywodraeth Cymru, mae'r Cynllun Gweithredu Garddwriaeth Fasnachol hwn ar gyfer Cymru yn **amlinellu dull aml-randdeiliad, cadwyn gyflenwi gyfan, i ddatblygu a chynnal y cynhyrchiad masnachol o gynnyrch garddwriaeth bwydadwy ac addurnol yng Nghymru am y tymor hir.**

Mae'n tynnu ar ein profiad o adeiladu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i wella cynhwysedd a gallu'r diwydiant. Ei nod yw cynyddu cyflawniadau wedi'u profi a fyddant yn parhau i fod o fudd i fusnesau garddwriaeth Cymru. **Mae'n ymateb i anghenion uniongyrchol ac yn darparu arweinyddiaeth i arfogi busnesau â'r wybodaeth a'r sgiliau ymarferol ar gyfer twf gwyrdd a chynhwysol gyda chefnogaeth ymchwil gymhwysol a defnydd priodol o dechnoleg.**

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n hanfodol bod y diwydiant garddwriaeth yng Nghymru yn gallu dangos sut y mae'n cyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yn **sicrhau bod y diwydiant yn mabwysiadu arferion sy'n cefnogi rheoli adnoddau naturiol, bioamrywiaeth, economi gylchol, iechyd y cyhoedd a chyfrannu at adfywiad economaidd cefn gwlad Cymru.**

Mae gwaith ar y gweill i ddangos ac adrodd ar sut mae gweithgareddau Tyfu Cymru yn galluogi'r diwydiant i gyfrannu at y nodau strategol hyn.

